



## Cam 5: Rysáit Pizza Baner Fwyd

### Cynhwysion

- 350g o flawd plaen, ac ychydig mwy ar gyfer sgeintio
- 1 llwy de o halen
- 2 llwy de o bowdr pobi
- 1 llwy de o olew
- 170g o ddŵr cynnes

### Dull

1. Gwnewch siap powlen gyda'ch dwylo a'u defnyddio i godi llond dwy law o flawd. Sawl gram o flawd ydych chi'n meddwl rydych chi'n ei ddal?
2. Pwyswch y blawd y gwnaethoch chi ei dynnu allan (awgrym: cofiwch wirio bod y deial ar y graddfeydd yn pwyntio i sero cyn i chi ddechrau). Pa mor agos oedd eich dyfalu? Faint mwy sydd angen i chi ei ychwanegu i wneud 250 gram?
3. Pwyswch weddill y blawd yn ofalus: edrychwch ar y graddfeydd yn ofalus a chyfrifwch ble fydd y deial pan gyrhaeddwch 250 gram cyn i chi ddechrau ei roi mewn.
4. Cymysgwch y blawd, y powdr pobi a'r halen gyda'i gilydd mewn powlen gymysgu.
5. Ychwanegwch yr olew a'r dŵr a'i droi nes ei fod yn ffurfio pêl. Awgrym: Os yw'n rhy stiff gallwch ychwanegu diferyn mwy o ddŵr; dylai fod yn feddal ond nid yn ludiog!
6. Tylinwch eich toes ar arwyneb â blawd arno a'i rolïo i siâp petryal. Efallai y byddwch chi'n dewis gwneud 1 pizza mawr neu 2 o rai bach.
7. Dewiswch ba dopins tymhorol yr hoffech eu defnyddio ac yna eu torri'n ofalus yn dafelli tenau. Faint o wahanol siapiau 2D ydych chi wedi'u gwneud? Allwch chi eu henwi i gyd?
8. Trefnwch eich topins yn bentyrrau lliw ar gyfer dyluniad eich baner.
9. Rhowch waelod eich pizza ar ddalen pobi. Defnyddiwch lwy i roi y saws pasta yn y canol a'i daenu dros y gwaelod i gyd. Trefnwch y topins mewn trefn lliw i wneud patrwm Baner yr Undeb.
10. Ysgeintiwch eich caws wedi'i gratio ar ei ben a gofynnwch i'ch athro/ athrawes roi'r pizza yn y popty am 25 munud.